**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**17 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 17 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Cyfreithiwr, Arweinydd y Tîm Trwyddedu, a Swyddog Pwyllgor

Yr Ymgeisydd

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod yr eitemau canlynol gan yr ystyried eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol1972 (fel y'i diwygiwyd).

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd Aelodau'r Is Bwyllgor a swyddogion y Cyngor. Gofynnodd y Cadeirydd i'r ymgeisydd a oedd yn dymuno gohirio'r gwrandawiad fel y gallai gael cymorth gwasanaethau cyfieithydd. Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd angen cyfieithydd arno a chadarnhaodd ei fod yn gallu clywed a deall yr achos. Esboniodd y Cadeirydd drefn y gwrandawiad, yn cynnwys sub byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

**3. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais am Drwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni, sy'n cael ei drwyddedu gan yr Awdurdod.

Eglurodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod y cais wedi gofyn am fanylion unrhyw euogfarnau blaenorol, fodd bynnag, nid oedd yr ymgeisydd wedi llenwi'r rhan hon o'r ffurflen gais. Wedi derbyn cofnodion uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar yr ymgeisydd, gwelwyd euogfarn am guro. Atodwyd manylion yr euogfarn i'r adroddiad Gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu eglurhad

ysgrifenedig o'r euogfarn a hefyd pam y methodd lenwi adran 5 y ffurflen gais. Atodwyd ymateb yr ymgeisydd fel atodiad C i'r adroddiad. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymddangos gerbron yr Is Bwyllgor Trwyddedu i benderfynu a oedd yn unigolyn cymwys a phriodol i ddal Trwydded Yrru ar y Cyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i roi eglurhad llawn am ei euogfarn flaenorol fel y manylwyd arni ar ddatgeliad cofnodion troseddol manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cyfeiriodd yr ymgeisydd at ei eglurhad ysgrifenedig oedd yn manylu ar ei euogfarn a rhoddodd wybodaeth gefndir am sut y cyflawnwyd y drosedd. Atebodd y cwestiynau ynghylch pa mor hir roedd wedi byw yn y Deyrnas Unedig, ei amgylchiadau personol a theuluol, a'i gefndir gwaith.

Holodd y Cyfreithwyr yr ymgeisydd yn fanwl am ei euogfarn am guro a'i fethiant i ddatgelu hynny ar adran 5 y ffurflen gais. Dywedodd yr ymgeisydd fod arno gywilydd am ei drosedd ond nad oedd yn credu ei fod yn euog ac esboniodd ei fod yn groes i'w gymeriad ac wedi digwydd ar adeg o anghydweld domestig. Ailadroddodd yr amgylchiadau a oedd wedi arwain at a dywedodd, er gwaetha'r euogfarn, ei fod yn parhau i gael bywyd teuluol sefydlog. Eglurodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud camgymeriad drwy beidio â rhoi manylion ei euogfarn ar y ffurflen ond roedd o'r farn nad troseddwr mohono.

Cyn holi ymhellach gofynnodd y Cyfreithiwr i'r ymgeisydd a oedd yn deall yn llawn y cwestiynau oedd yn cael eu gofyn a thrafodion y gwrandawiad ac a oedd angen gwasanaeth cyfieithydd. Atebodd yr ymgeisydd ei fod yn gallu clywed a deall ac nad oedd angen cymorth gan gyfieithydd.

Holodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd am adran 7 y ffurflen gais a oedd yn gofyn am eirda a gofynnod pam nad oedd wedi rhoi manylion ei gyflogwr diwethaf fel canolwr. Cyfeiriodd y Cyfreithiwr hefyd at adran 4 a oedd yn gofyn am fanylion cyflogaeth a hefyd eglurhad am y rheswm dros adael. Holodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd mewn manylder am ei gyflogaeth flaenorol a'i reswm dros adael. Esboniodd yr ymgeisydd ei fod wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr diwethaf a rhoddodd fanylion yr amgylchiadau a arweiniodd at ei ddiswyddiad. Yn y fan hon, darparodd yr ymgeisydd wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn rhoi manylion ei euogfarn am ymosodiad ar weithiwr arall a oedd wëid digwydd yn ei weithle. Datgelodd yr ymgeisydd hefyd ei fod wedi bod yn y llys yn ddiweddarach wedi derbyn dirwy a dedfryd ohiriedig, ac wedi cael ei rybuddio, pe bai'n cyflawni trosedd arall, y byddai'n cael dedfryd o garchar. Dosbarthodd yr ymgeisydd lythyr i'r Panel a oedd yn rhoi manylion y drosedd.

Holodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd mewn mwy o fanylder am ei euogfarn ddiweddar am ymosod a'r amgylchiadau a oedd wedi arwain ati. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn ddieuog o'r cyhuddiad a'i fod ef wedi dioddef ymddygiad ymosodol tuag ato gan weithiwr arall. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi ceisio cyngor cyfreithiol ac y byddai'n apelio yn erbyn ei ddedfryd. Esboniodd fod recordiad CCTV o'r digwyddiad a oedd yn dystiolaeth nad oedd wedi cyflawni ymosodiad.

Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r ymgeisydd a oedd wedi gwneud hawliad am ddiswyddiad annheg gyda thribiwnlys cyflogaeth. Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r

ymgeisydd hefyd pam iddo ddatgan ar adran 4 ei ffurflen gais mai ei reswm dros adael y gwaith oedd oherwydd yr "oriau anaddas".

Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r ymgeisydd ystyried sut byddai'n delio â phroblem ymddygiad heriol a gwrthdrawiadol gan gwsmeriaid yn ei gerbyd pe bai ei gais am drwydded yn llwyddiannus. Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd yn berson treisgar neu ymosodol ei natur a bod ganddo fywyd teuluol sefydlog. Dywedodd ei fod wedi cael ei bryfocio yn y ddau achos ond nad oedd yn euog o ymosod.

Holodd aelod o'r Panel yr ymgeisydd a oedd unrhyw gysylltiad rhwng yr euogfarn flaenorol am drais domestig a'r euogfarn ddiweddar am ymosod. Mynnodd yr ymgeisydd nad oedd gan ddweud eu bod yn ddigwyddiadau cwbl ar wahân.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod y cwestiynau perthnasol i gyd wedi cael eu codi, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra bod y cais yn cael ei benderfynu.

## 3.1 <u>Penderfynu ar y Cais</u>

Wrth benderfynu ar y cais, bu'r Is Bwyllgor yn ystyried canllawiau Cyngor Sir y Fflint ar drin euogfarnau, rhybuddiadiau, cyhuddiadau troseddol, neu gosbau eraill a gofnodwyd, a oedd wedi'u hategu at yr adroddiad. Talodd y Panel sylw arbennig at baragraff 4.18 a oedd yn ymwneud â thrais. Roedd y Panel yn bryderus iawn am adroddiadau anghyson yr ymgeisydd am ei euogfarn ddiweddar am ymosod. Roedd y Panel yn pryderu hefyd am ei fod wedi methu â datgelu ei euogfarn gynharach am guro ar adran 5 ei gis, a'i fethiant i ddatgelu ei fod wedi cael ei ddiswyddo o'i waith ar adran 4 y ffurflen fel y rheswm dros adael ei waith.

Roedd y Panel yn ymwybodol o'r ddyletswydd bennaf i warchod y cyhoedd, a daethant i'r farn, rhwng popeth, y byddai gwarchod y cyhoedd yn cael ei danseilio pe rhoddid trwydded i'r ymgeisydd.

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd i ddod yn ôl fel bod y cyfarfod yn gallu ailddechrau.

## 3.2 <u>Penderfyniad</u>

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd fod yr Is Bwyllgor wedi ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a wnaed, yn cynnwys yr hanesion am ei droseddau a'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd yn y cyfarfod ynghylch euogfarn ddiweddar arall am drosedd dreisgar (a arweiniodd hefyd at gael ei ddiswyddo o swydd flaenorol oherwydd bod y drosedd wedi digwydd yn y gweithle yn ystod amser gwaith yn erbyn cyn gydweithiwr) nad oedd yr Is Bwyllgor yn gwybod amdani cyn y gwrandawiad hwn. Roedd y Panel yn bryderus iawn am esboniad yr ymgeisydd am ei euogfarnau yn cynnwys, er y nodwyd fod yr ymgeisydd yn bwriadu apelio i Lys y Goron yn erbyn yr euogfarn arbennig honno, yr euogfarn ddiweddar iawn a gafodd yn ystod wythnos y gwrandawiad hwn. Dywedodd y Cadeirydd mai prif

ddyletswydd y panel oedd gwarchod y cyhoedd a gyda hynny mewn golwg, ei fod wedi dod i'r casgliad nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru (ar y cyd) cerbyd hurio/hacni preifat ac felly fod y cais yn cael ei wrthod.

Esboniodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd fod ganddo hawl i wneud cais newydd ar unrhyw adeg ac y byddai hyn yn arbennig o berthnasol pe bai unrhyw newid sylweddol yn ei amgylchiadau megis apêl lwyddiannus am euogfarn. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n awgrymu y byddai unrhyw gais dilynol yn llwyddiannus (neu'n aflwyddiannus), dim ond y byddai'n cael ei ystyried eto gan yr Is-Bwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd fod ganddo 21 diwrnod i apelio yn erbyn y penderfyniad.

**PENDERFYNWYD**:

Fod y cais yn cael ei wrthod gan nad ystyrid fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat/Hacni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

(Dechreuodd y gwrandawiad am 2.00 pm a daeth i ben am 3.30 pm)

## 4. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)

**GWRANDAWIAD DAU**

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT**
Cyfreithiwr, Arweinydd y Tîm Trwyddedu a Swyddog Pwyllgor Sir y Fflint

Yr Ymgeisydd

Cyn dechrau'r cyfarfod esboniodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi gofyn i'w gyflogwr cyfredol gael bod yn bresennol yn y cyfarfod. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn dymuno i'w gyflogwr fod yn bresennol a gofynnodd am ganiatâd iddo siarad ar ei ran os oedd angen.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a'r Parti a Diddordeb a chyflwynodd Aelodau'r Is-Bwyllgor a swyddogion y Cyngor. Eglurordd beth fyddai trefn y gwrandawiad, yn cynnwys sut byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

## 4. CAIS AM DRWYDDED YRRU (AR Y CYD) CERBYD HURIO PREIFAT CERBYD HACNI

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais am Drwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni, wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod.

Esboniodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod y cais wedi gofyn am fanylion unrhyw euogfarnau blaenorol, fodd bynnag nid oedd yr ymgeisydd wedi llenwi'r rhan hon o'r ffurflen. Wedi derbyn datgeliad troseddol manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), daeth euogfarn i'r amlwg. Atodwyd manylion llawn yr euogfarn at yr adroddiad. Gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu esboniad ysgrifenedig am yr euogfarn a'i fethiant i gwblhau adran 5 o'r cais ac atodwyd hwn hefyd at yr adroddiad. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymddangos gerbron yr Is Bwyllgor Trwyddedu iddynt benderfynu a oedd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru (Ar y Cyd)

Gofynnodd y Cadeirydd i'r ymgeisydd egluro amgylchiadau ei euogfarn fel y manylwyd arni yn yr adroddiad. Eglurodd yr ymgeisydd ei fod wedi cyrraedd y Derynas Unedig yn 2005 ac wedi rhoi manylion ei amgylchiadau personol yr adeg honno a'i angen i ddod o hyd i waith taladwy ar frys. Dywedodd ei fod wedi cael cerdyn cofrestru drwy gyswllt iddo a oedd yn delio â'r materion hyn a bod y cerdyn wedi'i alluogi i ddod o hyd i waith. Fodd bynnag, yn dilyn ymweliad ac ymholiadau gan swyddogion mewnfudo yn ei le gwaith, daeth i'r amlwg fod ei gerdyn cofrestru yn anghyfreithlon ac yn sgil hynny fe'i cafwyd yn euog o ddefnyddio cerdyn cofrestru wedi'i newid gyda'r bwriad o dwyllo.

Cwestiynodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd am ei hanes cyflogaeth a gofynnodd iddo egluro pam nad oedd wedi datgelu ei euogfarn ar ei gais. Eglurodd yr ymgeisydd nad oedd wedi sylweddoli fod y cerdyn cofrestru yn ffug. Dywedodd ei fod wedi bod o dan y camargraff nad oedd angen iddo ddatgelu ei euogfarn gan iddi gael ei chyflawni yn 2009 a hefyd nad oedd yn siŵr a oedd yn berthnasol i'w gais fel trosedd. Gofynnodd y Cyfreithiwr am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd ynghylch sut roedd wedi dod i hyd i waith yn dilyn ei euogfarn. Eglurodd yr ymgeisydd, pan oedd yn y ddalfa, ei fod wedi gwneud cais, gyda chymorth swyddogion mewnfudo, am gerdyn cofrestru newydd a gafodd ei rhoi wedyn a bod hyn wedi'i alluogi i gael gwaith pellach.

Pan ofynnodd y Cyfreithiwr iddo, dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn ei ystyried ei hun yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Dywedodd ei fod yn onest ac yn gweithio'n galed. Pan gafodd ei annog gan y Parti â Diddordeb, rhoddodd enghraifft o sut roedd wedi dod o hyd i waled yn ddiweddar yn llawn arian a chardiau ac wedi mynd a hi i swyddfa'r heddlu. Dywedodd ei fod eisiau gweithio i'w gynnal ei hun. Sicrhaodd y Panel nad oedd ganddo unrhyw euogfarnau blaenorol i'w datgan o'r adeg yr oedd yn byw yn ei wlad enedigol. Siaradodd y Parti â Diddordeb o blaid yr ymgeisydd gan ddweud iddo'i gael yn weithiwr caled, o gymeriad gonest a'i fod yn gwrtais ac yn barod iawn i helpu ei gwsmeriaid.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod y cwestiynau perthnasol i gyd wedi cael eu codi, gofynnwyd i Arweinydd y Tîm Trwyddedu, yr ymgeisydd, a'r Parti â Diddordeb, adael y cyfarfod tra bod y cais yn cael ei benderfynu.

**4.1 <u>Penderfynu ar y Cais</u>**

Wedi ystyried y cais, roedd yr Is Bwyllgor o'r farn fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau

Amrywiol) 1976 i ddal Trwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat/Hacni

Wrth benderfynu ar y cais, bu'r Is Bwyllgor yn ystyried canllawiau'r Cyngor ar drin euogfarnau, rhybuddiadau, neu gyhuddiadau troseddol, a atodwyd at yr adroddiad hwn. Talodd y Panel sylw arbennig i baragraff 4.21 a oedd yn ymwneud ag anonestrwydd. Bu'r Panel yn ystyried yr amgylchiadau perthnasol a hyd yr amser ers yr euogfarn ac roeddent yn teimlo fod yr ymgeisydd wedi rhoi cyfrif llawn a chredadwy am ei weithredoedd. Cytunodd y Panel fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat/Hacni.

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, yr ymgeisydd a'r Parti â Diddordeb yn ôl ac ailgydiwyd yn y cyfarfod.

**4.2 <u>Penderfyniad</u>**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd fod yr Is Bwyllgor wedi penderfynu iddo roi cyfrif llawn a chreadwy o'i weithredoedd a'i euogfarn flaenorol a'i fod wedi penderfynu caniatau'r cais.

**<u>PENDERFYNWYD</u>**:

Fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru (Ar y Cyd) ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat/Hacni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac y byddid yn caniatau'r Drwydded.

(Dechreuodd yr ail wrandawiad am 3.30 p.m. a daeth i ben am 4.10 p.m)

...................................................

**Cadeirydd**